# SL(6)697 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2025

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993 ("Rheoliadau 1993") yn darparu ar gyfer newid rhestrau prisio'r dreth gyngor, a gwneud apelau i Dribiwnlys Prisio Cymru pan fo anghytundeb rhwng swyddog rhestru a pherson sy'n gwneud cynnig ar gyfer newid rhestr.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau 1993. Y prif ddiwygiadau yw gosod gofyniad ar swyddogion rhestru i ddarparu gwybodaeth am eiddo i drethdalwyr sydd wedi gwneud cynnig cymwys ("cynigydd"), a chaniatáu i gynigwyr apelio'n uniongyrchol i Dribiwnlys Prisio Cymru yn erbyn penderfyniadau gan y swyddog rhestru, neu yn dilyn methiant gan swyddog rhestru i wneud penderfyniad o fewn pedwar mis ar ôl cael cynnig. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn rhoi pwerau rheoli achos ychwanegol i Dribiwnlys Prisio Cymru sydd eisoes ar gael iddo wrth wrando ar apelau mewn perthynas â newid rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chynigion a wneir ar 1 Chwefror 2026 neu ar ôl hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 9, mae'r geiriau mewn cromfachau ar ôl cyfeirio at "rheoliad 11" wedi'u nodi'n anghywir fel "(tynnu **apelau** yn ôl)". Fodd bynnag, dylai nodi "(tynnu **cynigion** yn ôl)" gan mai "withdrawal of **proposals**" yw'r pwnc a nodir ym mhennawd rheoliad 11 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 11(b), mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi y bydd cyfeiriad newydd yn cymryd lle cyfeiriad presennol yn rheoliad 15(3)(b) o Reoliadau 1993 yn Saesneg, "10 **or** 10C". Ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi y bydd cyfeiriad newydd yn cymryd lle'r cyfeiriad presennol yn Gymraeg, "10 **neu** 10C". Fodd bynnag, dylai testun Cymraeg rheoliad 11(b) hefyd fewnosod y cyfeiriad newydd yn Saesneg oherwydd mai dim ond yn Saesneg yn hytrach nag yn ddwyieithog y gwnaed Rheoliadau 1993.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 14, yn rheoliad 19(2) newydd, disgrifir y cyfeiriad yn anghywir fel "**sub-paragraphs** (1)(a) or (c)". Fodd bynnag, y disgrifiad cywir yw "**paragraph** (1)(a) or (c)". Mae hefyd yn anghyson â chyfeiriadau eraill a ddisgrifir yn gywir yn y diwygiadau testunol megis y cyfeiriad at "paragraph (2)(b) or (c)" yn rheoliad newydd 25D(3) a fewnosodir gan reoliad 17 o'r Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**13 Ionawr 2026**